Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Cofnodion CYP(3)-14-08

Dyddiad: Dydd Mawrth 14 Hydref 2008
Amser: 12:30-13:30
Lleoliad: Ystafell bwyllgora 1, y Senedd

Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Helen Mary Jones (Cadeirydd)
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Chris Chapman, Cwm Cynon
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Nick Ramsay, Mynwy

Y Gwasanaeth Pwyllgorau

Tom Jackson, Clerc
Rita Phillips, Dirprwy Glerc
Kathryn Potter, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

Eraill yn bresennol

Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
David Hawker, Cyfarwyddwr yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Elizabeth Williams, Pennaeth yr Is-adran Strategaeth Plant a Phobl Ifanc, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Angela Burns a Lynne Neagle. Yr oedd Nick Ramsay ac Ann Jones yn dirprwyo.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd y Gweinidog a'r swyddogion i'r cyfarfod.

Eitem 2: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009-10

2.1 Ymatebodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i gwestiynau gan y Pwyllgor.

Camau i'w cymryd:

Y Gweinidog i ddarparu papur i'r Pwyllgor yn nodi ymrwymiadau Cymru'n Un mewn cysylltiad â blaenoriaethau plant a phobl ifanc mewn portffolios Llywodraeth Cynulliad Cymru. .

Y Gweinidog i ddarparu dadansoddiad o'r gwario ar Wasanaethau Cwnsela ar gyfer Ysgolion.

Cadeirydd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am fanylion Cyllidebu o ran Plant pan fyddent ar gael.

Cadeirydd y Pwyllgor i anfon adroddiad ar waith craffu'r Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

2.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog am ddod i gyfarfod y Pwyllgor.

Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 10.37

Y Gwasanaeth Pwyllgorau

Hydref 2008